

Cyngor Cymuned Eglwys Bach

Cofnodion 03/04/2018

Cynhaliwyd trafodaeth cyn y cyfarfod ger polyn y faner i drafod lleoliad yr hysbysfwrdd a'r fainc (er cof am Trefor Roberts). Gweler isod.

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. PRESENNOL: Cynghorwyr: Gwyn Morris Jones (cadeirydd), Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Gwilym Williams, Arthur Williams, Phyllis Purchase, Gwenan Roberts, Austin Roberts, John Emlyn Jones (cofnodwr).
3. YMDDIHERIADAU: Cynghorydd Catherine Williams
4. DATGAN DIDDORDEB: Cynghorydd Gwyn Morris Jones (Cais Cynllunio 0/44972)

5. COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (06/03/18).

6. MATERION YN CODI

- i) Rhew ar Groesffordd Rhandir - Yn cael ei weithredu gan y Cyngor Sir
- ii) Cyflymder y we - Deallwyd fod posib i'r ran helaethaf o drigolion sy'n byw yn y pentref i dderbyn band llydan cyflym ond iddyn nhw wneud cais amdano. Bydd yr ail gyfnod o ddarparu band llydan i ardaloedd sy'n methu derbyn ar hyn o bryd yn digwydd yn fuan.
- iii) Y Diffibrilydd - Deallwyd mai dim ond 25% o gapasiti sydd gan fatris y diffibrilydd presennol. Gallai'r Cyngor brynu batris newydd ond nid oes sicrwydd bydd y peiriant ei hun yn para llawer o flynyddoedd eto.

Penderfynwyd: Prynu diffibrilydd newydd yn lle yr hen un. Hefyd i barhau i drafod gyda'r awdurdodau perthnasol parthed gosod diffibrilydd ger safle bws Graig.

- iii) Ffordd Bryn Hir - Cafwyd ar ddeall gan Mr Emyr Jones o'r Cyngor Sir bod y draeniau o dan Ffordd Bryn Hir yn cael eu harchwilio pob naw mis. Os oes problem, bydd yr adran berthnasol yn ymateb o fewn 24 awr.

8. CYNLLUNIO

Roedd y Cynghorydd Austin Roberts am ddatgan, oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor cynllunio y Cyngor Sir, nad yw'n gallu rhoi sylw ar unrhyw fater cynllunio.

0/44972: Diddymu amod rhif 4 o ganiatâd cynllunio 0/43316 (Newidiadau i adeilad presennol i agor ardal y gegin i fyny a gwella mynediad hygyrch i'r adeilad (Caniatâd Adeilad Rhestredig) er mwyn caniatáu gwaith i gychwyn cyn darparu manylion y liff. Bodnant Hall Ffordd Bodnant. - Mr Michael McLaren.

Datganodd y Cynghorydd Gwyn Morris ddiddordeb yn y cais hwn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

Penderfynwyd: Dim sylw

0/44977: Dymchwel dwy storfa goed a chynhwysydd dur a chodi tair storfa goed newydd/ siediau sychu gyda dau gaban lles staff ategol i ddarparu swyddfa ac ystafell staff/ toiledau. The Rookery, Bodnant. -Mr Michael McLaren.

Penderfynwyd: Dim sylw

0/45010: Trosi hen adeilad carreg ar dir llain bytio ym meddiant preifat yn siop gyfleustra fach.

Penderfyniad: Cefnogi'r cais.

9. ADOLYGU DOGFENNAU'R CYNGOR

Adolygwyd ac arwyddwyddoddd y cadeirydd y dogfennau canlynol:

- i) Rheolau Sefydlog
- ii) Rheoliadau Ariannol
- iii) Côt Ymddygiad

10. ADRODDIAD ARIANNOL

Cyfri Cadw £2,069.74

Cyfri Angladdau £2,433.20

Cyfri Cyfredol £4,771.76

Cymeradwywyd mantolen ariannol am 2017-8.

11. CLERC

Nodwyd fod Ms Katherine Himsworth wedi datgan ei bod yn fodlon yngymryd â gwaith y clerc (ar wahân i'r ochr ariannol) dros dro yn ddi dal.

Penderfynwyd: Roedd y cyngorwyr yn ddiolchgar iawn ac yn derbyn y cynnig gan hyderu bydd Ms Himsworth yn gallu dechrau yn y cyfarfod ym mis Mai.

12. HYSBYSFWRDD

Penderfynwyd: Yn dilyn y drafodaeth ger y faner cyn y cyfarfod, cytunwyd ar y lleoliad ar gyfer yr hysbysfwrdd a'r fainc. Cytunodd y Cyngorydd Ceri Leeder i wneud brasluniau ar gyfer anfon gyda'r tendr i dri person lleol. Nodir yn y tendr bod rhaid cychwyn ar y gwaith ar Fai 8fed a gorffen erbyn Mai 18fed. Y tendr i fod i mewn erbyn Ebrill 23ain.

13. TENDR TORRI GLASWELLT 2018-20

Penderfynwyd: Hysbysebu ar gyfer tendr torri glaswellt yn y fynwent a rhai manau eraill. Dyddiad cau ar gyfer derbyn y tendrau Ebrill 30ain.

14. GOHEBIAETH

i) Miss Megan Williams - grŵp dawnsio gwerin Ysgol Eglwys Bach yn gofyn am gyfraniad tuag at brynu dillad dawnsio gwerin ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanelwedd.

Datganodd y Cynghorwyr Gwilym Williams a Gwyn Morris Jones ddiddordeb gan fod eu plant yn y grŵp dawnsio ac ni chymerasant ran yn y drafodaeth.

Penderfynwyd: Rhoi cyfraniad o £200

ii) Adran AFfCh CBS Conwy - Cau Ffordd Penrhyd 22/05/18 - 23/05/18 ar gyfer Helfa (saethu) Flynyddol Elusennol Tŷ Gobaith.

iii) Y diweddar Emyr Jones - Derbyniwyd llythyr oddi wrth Meredith Jones Funeral Services ar ran deulu'r diweddar Emyr Jones yn amgau siec o £135 fel rhodd er cof amdano i'w ddefnyddio ar gyfer cynnal a chadw'r fynwent. Cytunodd y Cyngorydd John Lloyd Williams i anfon llythyr at y teulu yn diolch.

iv) Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy - Rhanwyd y wybodaeth berthnasol am yr argymhellion sydd yn y ddogfen sef bod y ward sirol bresennol sy'n cynnwys Eglwys Bach, Maenan a Llanddoged yn cael ei rannu fel bod:

i) Eglwys Bach yn ymuno â Llangernyw, Pandy Tudur a Gwytherin a

ii) Llanddoged / Maenan yn ymuno â Llanrwst.

15. SGIP CYMUNEDOL

Penderfynwyd: archebu sgip cymunedol ar gyfer mis Mai.

16. MATERION ERAILL - Nodwyd y materion canlynol oedd angen dwyn sylw y Cyngor Sir iddynt.

i) Ceudyllau yn y ffordd ar Ffordd Maenan o dan Y Rhiw

ii) Ceudyllau yn y ffordd ger croesffordd Tyn Twll a Rhandir/Ffrith Newydd

iii) Ceudyllau yn y ffordd ar groesffordd Cae Dwgan a Waun Fechan

iv) Draeniau wedi blocio ar groesffordd Waun Fechan yn pery bod 2 droedfedd o ddŵr yn codi at wal tŷ Waun Fechan

v) Ffens ar lan yr afon yn y maes parcio gyferbyn â'r ysgol yn dal heb ei drwsio ac mae pryderon am ddiogelwch y disgyblion. Hefyd ceudyllau mawr yn y maes parcio ei hun.

vi) Ffens ger yr Eglwys yn dal heb ei atgyweirio/adnewyddu.

17. RHESTR DIDDORDEBAU - Rhanwyd rhestr diddordebau unigol yr aelodau er mwyn eu hadnewyddu.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: **01/05/18 7:00 (Cyfarfod Blynyddol) 7:30 (cyfarfod arferol)**